GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC

PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

GWEITHIO I GISDA

Ein gwerthoedd

Mae GISDA yn credu mewn pobl ifanc waeth be fo'u hamgylchiadau, eu rhyw, eu hil, eu hanabledd na'u hymddygiad

Credwn mewn pobl ifanc sydd wedi eu cam-drin, pobl ifanc digartref a bregus a phobl ifanc heb gefnogaeth teulu. Byddwn yn eu cefnogi, yn sefyll yn gadarn drostynt ac yn ceisio sicrhau bob cyfle fel y gallent gyrraedd eu potensial mewn bywyd.

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc yn ein cymdeithas.

⇒ Gonestrwydd

Rydym yn darparu gwasanaeth gonest a diffuant i bawb

⇒ Parch

Rydym yn parchu'r unigolyn, parchu ei deimladau, credo a'i hawliau

⇒ Gwrando a chlywed

Rydym yn ymrwymo i wrando a chlywed llais y person ifanc gan gymryd pob cam posibl i eirioli ar ei ran. Byddwn yn cymryd pob cam posibl i ymateb i lais y person ifanc a cheisio cwrdd ag unrhyw angen os yn bosibl

⇒ Hyrwyddo cyfartaledd ac amrywiaeth

Mae GISDA yn parchu unrhyw wahaniaeth ymysg staff, gwirfoddolwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth ac yn parchu'r amrywiaeth

⇒ Ymbweru a galluogi

Byddwn yn ymrwymo i sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael y cyfle i ennill y sgiliau angenrheidiol i'w ymbweru a galluogi i fyw bywyd annibynnol. Ein nod yw cynyddu gwydnwch a hyder pobl ifanc i sicrhau eu bod wedi'u harfogi gyda'r strategaethau i ymdopi gyda heriau bywyd

⇒ Yr amgylchedd

Rydym fel cwmni yn awyddus i fod mor gyfeillgar â phosib tuag at yr amgylchedd. Mae gennym bolisi a chynllun gweithredu sydd yn nodi ein rhwymedigaeth tuag at hyn.

Amdanom ni

Mae GISDA yn gwmni ac yn elusen sydd yn darparu llety, cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus yng Ngogledd Cymru

Swyddfeydd

Mae gennym swyddfeydd yng Nghaernarfon, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli

Staff

Mae GISDA yn gwmni sydd yn cael ei arwain gan bobl sy'n gwerthfawrogi ei staff. Mae'r Brif Weithredwraig yn arwain staff y cwmni gyda cefnogaeth tîm rheoli sydd yn rheoli gwahanol adrannau a phrosiectau'r cwmni.

Gwasanaethau a Phrosiectau

⇒ **Cymorth Tai** – yn darparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc ar eu taith i fyw'n annibynol
⇒ **Atal Digartrefedd** – darparu gwasanaeth i bobl ifanc sy'n agored i niwed ac yn wynebu risg o ddigartrefedd
⇒ **Ôl Ofal** – helpu pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal i symud ymlaen a byw bywyd annibynnol a llwyddiannus
⇒ **Prosiect LGBTQ+** - sefydlu clybiau a chreu partneriaethau i ddarparu gofod diogel a chyfforddus i bobl ifanc LHDT+ fynychu yn cynnwys rhaeadru gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth
⇒ **ICan/MiFedraf** – yn darparu cymorth cynnar therapiwtig i bobl ifanc sy'n cael trafferth gyda iechyd meddwl a llesiant
⇒ **Academi Cyfleon** – symud pobl ifanc ymlaen o gefnogaeth i gyflogaeth drwy eu harfogi gyda hunan hyder, sgiliau, hyfforddiant, profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli
⇒ **GISDA Creadigol** – rydym yn credu'n gryf bod gwaith creadigol yn fuddiol i iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc
⇒ **Gwirfoddoli a mentrau cymdeithasol** – rydym yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant a phrofiad gwaith i bobl ifanc mewn awyrgylch cefnogol ac empathetig yn cynnwys Caffi Gisda

Sut i ddarganfod mwy am GISDA

- **ewch i'n gwefan https://www.gisda.org/**
- **edrychwch ar ein tudalennau facebook, twitter, instagram a linkedin**

Buddion gweithio i GISDA

- cynlluniau gweithio'n hyblyg
  - swyddfeydd ar draws 3 safle yng Ngwynedd,
  - oriau hyblyg,
  - FLEXI,
  - bodlon ystyried gweithio o adra a rhannu swydd
- cynllun llesiant staff
  - diwrnodau tîm cyson,
  - gweithgareddau awyr agored,
  - mynediad i raglenni cefnogaeth iechyd a lles mewn gwaith
- cyfleoedd hyfforddiant a datblygu sgiliau
- gwyliau blynyddol – mae pawb yn cael 25 diwrnod o wyliau (pro rata) mewn blwyddyn + gwyliau banc, mi fydd eich gwyliau blynyddol yn cynyddu 2 ddiwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth parhaus
- aelodaeth o gynllun pensiwn
- cynllun gofal llygaid – tal am brofion llygaid
- polisi tâl salwch ar gael
- amser i ffwrdd gyda thâl ar gyfer absenoldebau penodol
  - apwyntiadau meddyg a deintydd,
  - absenoldeb tosturiol,
  - argyfyngau domestig,
  - gofalu am ddibynyddion
- polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd yn cynnwys tâl mamolaeth/mabwysiadu ac absenoldeb rhiant ychwanegol

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae GISDA wedi ymrwymo i sefyll i fyny a siarad dros bobl sy'n wynebu anghydraddoldeb ac anfantais ac rydym am i hyn gael ei adlewyrchu yn ein staff

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gweithredu gweithdrefn recriwtio deg sy'n rhydd o ragfarn oherwydd oedran, anabledd, rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred.

Rydym yn barnu'r cais nid y person. Ni fydd y panel dethol yn gweld y manylion personol. Mae hyn yn sicrhau bod ymateb pob unigolyn yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod ac nid yn ôl ei gefndir.

Rydym yn cynnig cyfweliad gwarantedig i ddefnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddwyr gwasanaeth GISDA; ymgeiswyr o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig eraill; a phobl anabl sy'n cwrdd â'r meini prawf swydd hanfodol.

Rydym yn cynnig cefnogaeth i ymgeiswyr i sicrhau na chollir unrhyw gyfle oherwydd unrhyw anfantais.

Os oes angen help arnoch gydag unrhyw agwedd ar y broses recriwtio, cysylltwch ag Elizabeth, ein Pennaeth Busnes, ar elizabeth.george@gisda.co.uk neu ffoniwch 01286 671153.

Safonau a Marciau Ansawdd

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygiad a gwelliant parhaus i sicrhau bod GISDA yn lle diogel, iach, cynhwysol a difyr i weithio ynddo. Credwn fod cyflawni safonau a marciau ansawdd a gydnabyddir yn genedlaethol yn helpu i ddangos hyn ac rydym yn falch ein bod wedi cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer y canlynol:

GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC

PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

WORKING FOR GISDA

Our values

GISDA believes in young people regardless of their circumstances, gender, race, disability or behaviour

We believe in abused young people, homeless and vulnerable young people and young people without family support. We will support them, stand up for them and try to ensure every opportunity so that they can reach their potential in life.

⇒ **Honesty**

We provide an honest and sincere service to everyone

⇒ **Respect**

We respect the individual, their feelings, beliefs and rights

⇒ **Listening and Hearing**

We are committed to listening and hearing the young person's voice and taking every possible step to advocate on their behalf. We will take all possible steps to respond to the young person's voice and try to meet any need if possible

⇒ **Promoting Equality and Diversity**

GISDA respects any difference among staff, volunteers and service users and respects diversity

⇒ **Empowering and Enabling**

We will be committed to ensuring that all service users have the opportunity to gain the necessary skills to empower and enable them to live independent lives. We aim to increase the resilience and confidence of young people to ensure they are equipped with the strategies to cope with life's challenges

⇒ **The Environment**

As a company we want to be as environmentally friendly as possible. We have a policy and an action plan that sets out our obligation towards this.

About us

GISDA is a company and charity that provides accommodation, support and opportunities for homeless and vulnerable young people in North Wales

Offices

We have offices in Caernarfon, Blaenau Ffestiniog and Pwllheli

Staff

GISDA is a company led by people who value its staff. The Chief Executive leads the company's staff with the support of a management team that manages the various departments and projects of the company.

Services and Projects

⇒ Housing Support – providing accommodation and support for young people on their journey to independent living
⇒ Preventing Homelessness – providing service to young people open to harm and at risk of homelessness
⇒ Leaving Care – helping care experienced young people to move on and live independent and successful lives
⇒ LGBTQ+ Project – establishing clubs and partnerships to provide a safe and comfortable space for young LGBTQ+ people to attend including cascading information and raising awareness
⇒ ICan – providing early therapuetic support for young people struggling with mental health and wellbeing
⇒ Academi Cyfleon – equipping young people with skills, confidence and qualifications to move into employment and live independently
⇒ GISDA Creative – we strongly believe that creative activities are beneficial to the mental health and wellbeing of young people
⇒ Volunteering and social enterprises - we offer volunteering, training and work experience opportunities to young people in a supportive and empathetic environment including Café Gisda

How to discover more about GISDA

- **go to our website https://www.gisda.org/**
- **look on facebook, twitter, instagram and linkedin**

Benefits of working at GISDA

- flexible working plans
  - offices across 3 sites in Gwynedd,
  - flexible hours,
  - FLEXI,
  - willing to consider working from home and job sharing
- staff wellbeing plan
  - regular team days,
  - outdoor activities,
  - access to health and wellbeing support at work schemes
- training and skills development opportunities
- annual leave – everyone gets 25 days holiday (pro rata) a year + bank holidays, your annual leave will increase 2 days after 5 years continuous service
- membership of pension scheme
- eye care scheme – payments for eye tests and contributions towards the cost of glasses
- sick pay policy
- time off with pay for specified absences
  - medical and dental appointments,
  - compassionate leave,
  - domestic emergencies,
  - caring for dependants
- family friendly policies including additional maternity/adoption pay and parental leave

Equality and Diversity

GISDA is committed to standing up and speaking out for people facing inequality and disadvantage and we want this to be reflected in our staff

To achieve this we operate a fair recruitment procedure free of bias due to age, disability, gender, race, sexual orientation, religion and belief.

We judge the application not the person. The select panel won't see the personal details. This makes sure each person's response is judged on its merits and not on their background.

We offer a guaranteed interview to GISDA service users and former service users; candidates from Black, Asian or other ethnic minority backgrounds; and disabled people who meet the essential job criteria.

We offer support to applicants to ensure that no opportunity is lost due to any disadvantage.

If you need help with any aspect of the recruitment process contact Elizabeth, our Head of Business, on elizabeth.george@gisda.co.uk or telephone 01286 671153.

Quality Marks and Standards

We are committed to continuous development and improvement to make GISDA a safe, healthy, inclusive and enjoyable place to work. We believe that achieving nationally recognized quality standards and marks helps to demonstrate this and we are pleased that we have achieved the required standard for the following: